CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 8 TACHWEDD 2006 YN NHŶ CARADOG, CAERDYDD

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr S R Halsall
Mr D H Roberts (Aelod)	Mr D Carr
	Mrs L Brough

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 11 Hydref 2006

2.1 Cytunwyd â'r rhain yn amodol ar wneud mân newidiadau.

3. MATERION YN CODI

3.1 Materion Merlin

3.1.1 Roedd yr Adran Nawdd a oedd wedi codi'r mater gyda'r uwch bersonél yn y Cynulliad Cenedlaethol wrthi'n ceisio cau pen y mwdwl ar faterion heb eu datrys. Aeth yr Ysgrifennydd a'r Dirprwy Ysgrifennydd i gyfarfod ynghylch newidiadau yn Merlin a'r cytundeb lefel gwasanaeth yn y dyfodol.

3.2 Penodi Comisiynydd

3.2.1 Ar hyn o bryd roedd disgwyl i'r Gweinidog wneud penderfyniad ynghylch penodi Gweinidog.

3.3 Cyfarwyddyd Arolygon Cymunedol

3.3.1 Roedd Arolwg Ynys Môn wedi dechrau erbyn hyn a byddai Arolwg Rhondda Cynon Taf yn dechrau cyn gynted ag y byddai'r mapiau angenrheidiol wedi eu llunio.

3.4 Rhagolwg Cyllideb 2007-08 ac wedyn

3.4.1 Roedd rhagolygon cyllideb wrthi'n cael eu llunio ac roedd yr Ysgrifennydd i gyfarfod â'r Adran Noddi yn yr wythnos nesaf i drafod y mater.

3.5 Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus

3.5.1 Cwblhawyd llythyr gan y Cadeirydd, a'i gyflwyno a'i dderbyn gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Byddai copi'n cael ei ddosbarthu i'r Comisiynwyr.

4. AROLYGIAD O FFINIAU CYMUNEDOL YM MWRDEISTREF SIROL WRECSAM

4.1 Ystyriodd y Comisiwn y map a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Is-y-coed yn dangos eu newid arfaethedig yn y ffin rhwng Cymunedau Is-y-coed a Holt. **Cytunwyd** bod rhinwedd i'r cynnig ac y dylid ei gynnwys yn yr adroddiad cynnig drafft.

4.2 Cafodd y Comisiwn drafodaethau pellach ar arwyddocâd y Cynllun Datblygu Unedol ar gyfer Ffiniau Cymunedau a gwnaeth rai newidiadau yn nhestun adroddiad y Cynnig Drafft.

4.3 Mewn perthynas ag Ystâd Fairways, credai'r Comisiwn y dylid diwygio'r dewis o drosglwyddo'r Ystâd i Acton er mwyn cynnwys Old Gardens gydag Ystâd Bryn Estyn yn ffin. **Cytunwyd** y byddai'r Dirprwy Ysgrifennydd yn llunio mapiau amgen ar gyfer Ystâd Fairways.

4.4 Ystyriodd y Comisiwn y newid arfaethedig yn y ffin rhwng Brymbo a Brychdwn a nododd ganfyddiadau'r ymweliad â'r safle gan Mr Roberts a'r Ysgrifenyddiaeth. **Cytunwyd** y dylid cynnwys y newid hwn yn adroddiad y Cynnig Drafft.

4.5 Penderfynwyd hefyd y dylid diwygio barn wreiddiol y Comisiwn ynghylch y ffin rhwng Gwersyllt a Llai ar ôl ymgynghori â mapiau manylach o'r ardal. Dangosodd y mapiau fod gan ardaloedd, y bwriadwyd yn wreiddiol eu trosglwyddo i Llai, gysylltiadau cryf â Gwersyllt. **Cytunwyd** y dylid cadw pethau fel y maent yn y rhan hon o'r ffin rhwng Gwersyllt a Llai.

4.6 Cytunwyd y dylid cyflwyno ffurf ddrafft ddiwygiedig o adroddiad y Cynnig Drafft i'r cyfarfod nesaf.

5. CYFARFOD AGORED BLYNYDDOL 2007

5.1 Nododd y Comisiwn ganlyniadau'r ymarfer adborth a lefel presenoldeb y blynyddoedd blaenorol. Barnwyd y dylid cynnal CBO 2007 yn Ne Ddwyrain Cymru gan fod y Comisiwn yn gobeithio gwahodd y Gweinidog Llywodraeth Leol newydd i roi cyflwyniad. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dechrau gwneud y trefniadau angenrheidiol yn nes at yr amser.

6. DATGANIADAU RHEOLI A MEMORANDWM ARIANNOL (DRhMA)

6.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd nad oedd penderfyniad ar y DRhMA eto oherwydd na ddatryswyd y mater cyfyngiadau a osododd yr Adran Noddi ar drosglwyddo arian yn y gyllideb. Cynigodd yr Adran Noddi rai mân ddiwygiadau ynghylch mynediad TG, ac yr oedd yn rhaid i Swyddfa Cydymffurfio'r Cynulliad ei glirio. Gobeithiwyd cwblhau'r DRhMA erbyn diwedd y flwyddyn galendr.

7. ADRODDIAD CYLLID – AIL CHWARTER 2006-07

7.1 Nododd y Comisiwn yr adroddiad Cyllid ac amcangyfrif y tanwario ar gyfer y flwyddyn. Credai y dylai'r Ysgrifenyddiaeth nodi unrhyw ofynion o'r flwyddyn ariannol flaenorol, nad oeddent wedi eu gweithredu oherwydd prinder arian, a chynnal ymarfer i weld a

fyddent o hyd o fudd i'r Comisiwn. **Cytunwyd** i arolygu sefyllfa'r gyllideb ddiwedd Rhagfyr 2006 pan fyddai'n cael ei gadarnhau a fyddai angen dychwelyd arian i'r Cynulliad Cenedlaethol. Cytunwyd hefyd y dylid dechrau ar y gwaith i ail-loywi byrddau'r ystafell bwyllgor.

8. MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH (BCW)

8.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd i'r Adran Noddi gynnig rhai mân newidiadau hwyr yn y ddogfen. **Cytunwyd** i ymgorffori'r diwygiadau hyn ac y dylid anfon y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth at Ymgynghorydd Cyfreithiol y Comisiwn er mwyn iddo sylwi arno.

9. YMARFER TENDRO CONTRACTAU

9.1 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn defnyddio gwefan Buy4wales er mwyn tendro am gontractau sydd ar y gweill i'w hadnewyddu.

10. UNRHYW FATER ARALL

Nid oedd mater arall.

11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7.1 Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fyddai 11 Rhagfyr 2006.